

## **Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn Coch 2015.**

### **Tlws y Cerddor Ifanc.**

Daeth pum ymgais i law - un wedi cynnwys dau ddarn yn ei ffolio. Roedd rhai wedi cynnwys rhyw fath o gofnod sain yn ogystal (i'w groesawu bob amser, ond nid yn angenrheidiol) ac roedd tri ymgeisydd wedi ysgrifennu ar gyfer ensemble - tybiaf mai Ensemble Galliard yw hwnnw. Maent i gyd i'w canmol am eu dyfeisgarwch ac er fod dau ymgais yn amlwg gan gyfansoddwyr llai profiadol, maent yn dangos addewid mawr.

### **Dryw: Dawns yr Adar.**

Darn ar gyfer dwy delyn sydd gan 'Dryw'. Mae'n amlwg yn deall teithi'r offeryn ac wedi mentro i greu rhythmau sy'n croes-dynnu rhwng y ddwy delyn, yn enwedig 3 nodyn yn erbyn 2. Clywir ambell i gyffyrddiad sydd yn adleisio caneuon adar - efallai y gellid ymhelaethu a datblygu'r syniad hwn ymhellach i gael un delyn yn fwy afreolaidd yn rhythmig (gan efelychu sain adar) tra bod y llall yn cadw rhythm mwy caeth. Er fod dealltwriaeth 'Dryw' o harmoni yn gadarn, ychydig yn gyfyng yw ei ddilyniant cordiol, er fod yna ymgais i ysgrifennu mewn iaith foddawl. Tybiaf fod yr ymgeisydd hwn yn gymharol ifanc ac mae i'w ganmol yn fawr am fentro i ysgrifennu ar gyfer mwy nag un offeryn. Er fod ei gynllun neu ei strwythur ychydig yn anelwig, ceir gweadau diddorol a sgysiau mewn antiffoni neu 'gwestiwn ac ateb' rhwng y ddwy delyn ar brydiau. Dalier ati yn sicr - y mae yma egin dychmyg gwir greadigol yn perthyn i chi.

### **Pysgodyn Aur: Y Tywyllwch.**

Darn ar gyfer ensemble chwyth a chorn yw 'Y Tywyllwch'. Mae'r ysgrifennu yn ddychmygus ac mewn arddull sy'n adlewyrchu'r cyfansoddwyr Mynegiadol mewn iaith ddi-gywair, er na fedraf ddirnad bod yna Gyfresiaeth i'w ganfod yn y darn. Y mae yna egin syniadau cryf yn rhoi motifau difyr a bywiog bob yn ail â gweadau llonydd a dwys. Y prif syniad yma y'w cyfwng o 'drithon' - h.y. o C-F# (neu Gb) ac mae'n ymdrin â hynny yn harmoniol ac yn felodig. Mae yna ymdriniaeth o ddilyniant yn ogystal o'r cyfwng uchod. Yn sicr, mae yma wybodaeth o ddyfeisiadau cyfansoddiadol, ond efallai mai prin yw'r fflach o wreiddioldeb ar hyn o bryd. Mae'r cyfansoddwr hwn hefyd yn gymharol ifanc, mi gredaf, ond yn llawn brwdfrydedd ac yn barod i droi ei law at fentro i faes di-gywair. Mae'n ymwybodol o ysgolion cerddorol yr G20 / 21 megis Minimaliaeth a Mynegiadaeth ac mae'r ymgais hwn yn dangos addewid mawr. Dalier ati yn sicr.

### **Aber: Ymbarel - Storm Aberystwyth 2014.**

Mae'r darn ar gyfer yr un ensemble chwyth a chorn uchod ac yn dilyn patrwm Cathl Symffonig (Symphonic Poem) mewn strwythur rhapsodig a rhydd ac mae stori i'w chanfod yma. Hawdd iawn fyddai wedi digrifio storm a dim ond hynny, ond dyma dro newydd ar hen ystrydeb. Mae'r strwythur ar ffurf bwa yn yr ystyr fod y gwead yn dwysau wrth gyrraedd yr uchafbwynt yng nghanol y darn ac yna'n teneuo drachefn wrth i'r darn ddod i'w derfyn. A yw hynny'n ogystal yn adlewyrchu siap yr ymbarel tybed? Y mae yna fotifau a syniadau cerddorol difyr sy'n cael eu trawsnewid a'u datblygu - e.e. y nodyn pedal C sy'n amlwg yn y bariau agoriadol yn trawsnewid i fod yn C mewn 8fedau dilyniannol yn y barau olaf gan y basŵn. Y mae ymgais y cyfansoddwr i dynnu darluniau drwy gyfrwng cyffyrddiant (nodau staccato yn enwedig) a dynameg yn feistrolgar, a chlywir ymchwydd y tonnau a hyrddio'r glaw drwy nodau a rhythmau ailadroddus yn glir. Efallai fod y daith o'r uchafbwynt i'r diwedd i mi ychydig yn fyrrach nag yr hoffwn, ond dyma gyfansoddwr sydd wedi defnyddio dyfeisiadau'n llwyddiannus i greu darlun cyflawn. Ei gryfder yw ei fod wedi defnyddio rhesyddiaeth (neu gyfresiaeth) i'w botesial llawnaf - yn y gwreiddiol, mewn retrograd, gwrthdro a gwrthdro mewn retrograd; h.y. y mae yma iaith gerddorol gaeth iawn, ac eto, y mae'r darn yn un hynod o rhydd ac yn llifo a'r rhesi cerddorol yn cael eu defnyddio i bwrpas yn rhydd heb lyffetheirio'r mynegiant o gwbl.

### **Pablo: Dau ddarn- i) Cyfresiaeth ii) Thema ac Amrywiadau.**

Enw ar fathau neu deip o ddarnau yw'r uchod ac enw ar iaith gerddorol, hyd yn oed, yw 'Cyfresiaeth' a hoffwn pe bai'r cyfansoddwr hwn wedi dewis teitlau ychydig yn fwy dychmygus - mae yma gymaint mwy y gellid ei wneud gyda'r darnau gan fod yma fflachiadau o ysbrydoliaeth yn

y ddau ar brydiau. Bwriad y cyfansoddwyr Mynegiadol oedd creu darluniau disgrifiadol o ofnau dyfnaf y ddynoliaeth drwy gyfrwng melodïau pigog a lliwiau llachar yn yr offeryniaeth. Darn i driawd piano gyda fflwt yw 'Cyfresiaeth'. Mae yma gyfresi wedi eu gwau'n gelfydd a chuddiedig yn y darn. Er fod yma strwythur a threfn i'r gwaith, mae angen mwy o ryddid yn y mynegiant ar brydiau. Felly, gwylwch i'r cyfansoddi fynd yn ymarferiad technegol yn unig. Mae yma lawer o ddatblygu motifau megis y 4ydd perffaith yn ymddangos mewn amrywiol ffyrdd drwy'r gwaith, a hefyd y treiad lleiaf. (Gwylwch fanylion cwbl sylfaenol, fodd bynnag. Nid yw'r 'cello yn medru chwarae triadau - b.43 ac nid yw 3yddau chwaith yn gyfforddus ar y fyseddell - b. 32.) Gydag ychydig mwy o weledigaeth ac arweiniad, gall y cyfansoddwr hwn gyflawni cymaint mwy.

Darn sy'n dwyn y teitl 'Thema ac Amrywiadau' yw'r ail ddarn. Darn sydd wedi ei ysgrifennu fel *pastiche*, yn arddull cyfansoddwyr eraill - un o ofnyion yr arholiad cyfansoddi Safon Uwch presenol. Mae ar gyfer cerddorfa (neu ensemble) llynnol gyda phiano. Mae ei amrywiadau yn llawn dychymyg, y rhythmau a'r gwead yn datblygu'n hynod foddhaol, tra'n cadw'r un harmonïau. Mae'r darn hwn o dan fwy o reolaeth na'r llall o lawer. Dalied ati - mae yma ddigon o allu yn sicr.

### **William: Cantre'r Gwaelod (geiriau J.J.Williams)**

Darn ar gyfer Côr Cymysg gyda chyfeiliant piano yw hwn. Mae yma lawer o beintio geiriau a chymalau yn amlwg yn y gwaith ac mae'r gweadau yn rhai difyr iawn - ('Ding Dong' gan y llais bas yn gyfochrog ag 'ww-ian' y lleisiau eraill ). Mae'r dewis o amseriad a'r amsernod 12/8 yn peri i'r gwrandawr gael ei siglo neu ei suo i fyd hud a lledrith. Yn wir, y mae'r cyfan yn creu awyrgylch addas tu hwnt. Ychydig yn gyfyng yw'r iaith gerddorol a'r dilyniant cordiau fodd bynnag, a gallwch efallai fod wedi gwneud mwy o'r elfen foddawl er mwyn tanlinellu pa mor hen yw'r chwedl. Er hynny, mae'r trawsgyweirio a'r teithi cerddorol gramadegol yn gadarn. Mae'r ymdriniaeth o'r geiriau yn dda iawn, e.e. 'a tharan yn ei stwr' b.29. a'r canu *a cappella* b.35. pan yn son am y môr yn llonydd heb awel yn ddisgrifiadol tu hwnt. Mae rhai manylion technegol yma y dylid eu crybwyll. Onid gwell fyddai rhoi'r adran Ab lleiaf yn G# lleiaf, (b. 35-43) — nid yw'r cywair Ab lleiaf yn ddeniadol i unrhyw gerddor gyda saith fflat yn yr arwydd cywair! Ac nid ydwyf yn gwbl argyhoeddedig fod ynganu 'ding dong' ar draws geiriau eraill yn mynd i weithio tua'r diwedd. Ac efallai y dylid cadw'r efelychiant rhwng y y sopranos a'r altos ym mariaau 7-8 at nes ymlaen rhag cymylu'r geirio ar ddechrau darn. Ond barn bersonol yw hon. Rydych i'ch canmol am driniaeth sensitif o eiriau ac ysgrifennu idiomatig ar gyfer lleisiau. Daliwch i gyfansoddi.

Dyfernir y Tlws i **Aber** am ddarn sy'n ddigon meistrolgar i guddio'r grefft o gyfansoddi er mwyn i ddarn o gelfyddyd ddod i'r wyneb. Llongyfarchiadau. A llongyfarchiadau i bob un o'r cyfansoddwyr ifainc eraill.

Sioned Webb. Ebrill 2015.